swyddfa'r
dyfarnwr
annibynnol

# Cynllun Gweithredu ar gyfer 2025

www.oiahe.org.uk

# Cynnwys

Rhagarweiniad . . . 3

Adolygu ein proses ar gyfer gwaith achos yn sylfaenol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr ein gwasanaeth yn ganolog i'r broses honno, ei bod mor effeithlon â phosibl a'i bod yn canolbwyntio ar ddatrysiad effeithiol. . . . 4

Cynyddu effeithiolrwydd ein dylanwad i gefnogi ein hamcanion. . . . 7

Gwella ansawdd ein tystiolaeth, yn ddata a mewnwelediad, i wella ein perfformiad sefydliadol ac effeithiolrwydd o ran dylanwadu. . . . 11

Cynyddu effeithiolrwydd y sefydliad, adeiladu ar ein hymagwedd un-sefydliad a'i chryfhau, gan sicrhau y gallwn ymateb i ofynion y blaenoriaethau eraill, a chreu amgylchedd lle gall ein holl bobl ffynnu.. . . . 14

# Rhagarweiniad

Ein pwrpas elusennol yw hyrwyddo addysg er budd y cyhoedd trwy adolygiad annibynnol o gwynion myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr a thrwy ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o gwynion i helpu â gwella olisïau ac arferion.

Yn 2024 fe wnaethom ddatblygu a chytuno ar strategaeth newydd ar gyfer 2025 sy'n nodi dau amcan a phedair blaenoriaeth y byddwn yn eu defnyddio i gyflawni ein pwrpas i wella profiad myfyrwyr trwy ddatrys cwynion yn deg ac yn annibynnol, gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwn i ddylanwadu ar newid.

Mae ein Cynllun Gweithredu ar gyfer 2025 yn nodi'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud eleni i fwrw ymlaen â phob un o'r meysydd a nodwyd a'r hyn y bwriadwn ei gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'n cynnwys meysydd gwaith parhaus a mentrau newydd. Mae myfyrwyr a'r sector addysg uwch yn dal i wynebu amgylchiadau heriol iawn, a bydd hwn yn gyd-destun allweddol ar gyfer ein gwaith yn 2025. Mae ein Cynllun Gweithredu am y flwyddyn yn rhagweld hyn a'r datblygiadau pellach yr ydym yn eu disgwyl ar draws pob agwedd o'n gwaith.

# Adolygu ein proses ar gyfer gwaith achos yn sylfaenol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr ein gwasanaeth yn ganolog i'r broses honno, ei bod mor effeithlon â phosibl a'i bod yn canolbwyntio ar ddatrysiad effeithiol.

Mae nifer y cwynion y mae myfyrwyr yn eu cyflwyno i ni yn cynyddu o un flwyddyn i'r nesaf. Mae anghenion a disgwyliadau myfyrwyr yn newid, ac mae'r sector yn esblygu'n barhaus. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn cynnig prosesau hygyrch a hawdd eu llywio sy'n hyblyg ac yn bodloni anghenion myfyrwyr a darparwyr. Rhaid gallu ymddiried yn ein penderfyniadau fel rhai teg. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar gyflawni'r canlyniadau gorau posibl o dan yr amgylchiadau. Rydym yn ceisio defnyddio technegau datrys anghydfod i ddatrys problemau cyn gynted â phosibl – gan ddefnyddio adolygiadau mwy traddodiadol yr Ombwds pan fydd hynny'n darparu'r canlyniad gorau.

Mae'r dysgu rydym yn ei rannu â'r sector yn seiliedig ar ddata cwynion, gan gynnwys adborth myfyrwyr. Byddwn yn adeiladu ar y fframwaith Arfer Da a gwaith allgymorth i roi cefnogaeth i ddarparwyr wrth ymdrin â chwynion yn effeithiol. Rydym yn helpu i nodi pan fydd prosesau cwyno mewnol yn methu a sut i'w gwella. Rydym yn hyrwyddo golwg gadarnhaol ar gwynion, ac rydym o blaid defnyddio cwynion ar gyfer dysgu.

Adolygu ein proses ar gyfer gwaith achos yn sylfaenol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr ein gwasanaeth yn ganolog i'r broses honno, ei bod mor effeithlon â phosibl a'i bod yn canolbwyntio ar ddatrysiad effeithiol.

| Beth rydym yn bwriadu ei wneud | Sut olwg fydd ar hyn |
|---|---|
| Byddwn yn darparu gwasanaeth amserol, gan ymateb yn brydlon i ymholiadau; byddwn yn rhoi gwybod i fyfyrwyr cyn gynted â phosibl a allwn roi sylw i'w cwyn, a datrys cwynion cyn gynted ag y gallwn. | ◆ Rydym yn bodloni ein dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer prydlondeb ein proses ymdrin ag achosion:<br>▶ Ymateb i 95% o ymholiadau o fewn dau ddiwrnod gwaith.<br>▶ Gwneud 90% o benderfyniadau ynghylch cymhwysedd (neu ofyn am ragor o wybodaeth) o fewn 10 diwrnod gwaith.<br>▶ Cau 75% o achosion o fewn chwe mis i'w derbyn. |
| Byddwn yn defnyddio ymagwedd gymesur sy'n seiliedig ar risg, gan adeiladu ar hyblygrwydd ac effeithlonrwydd ein gwasanaeth. | ◆ Rydym yn adolygu ac yn datblygu opsiynau ar gyfer defnyddio dulliau datrys cwynion yn gynnar a chymesur - lle bydd hynny'n rhoi'r cyfle gorau i'w datrys<br>◆ Rydym yn parhau i archwilio a hyrwyddo manteision setlo unrhyw anghydfod i'r naill ochr a'r llall.<br>◆ Rydym yn adolygu ac yn ail-ddylunio ein prosesau craidd i sicrhau cynaladwyedd ein gwasanaeth ac i wella profiad defnyddwyr y gwasanaeth hwnnw. |
| Byddwn yn datblygu ein prosesau a'n systemau ymhellach i ddarparu gwasanaeth hygyrch a chynhwysol i fyfyrwyr a darparwyr. | ◆ Rydym yn cynnal ymchwil i lywio arfer gorau wrth ddatblygu ymhellach ein systemau a'n prosesau ar gyfer hygyrchedd a chynwysoldeb.<br>◆ Rydym yn ceisio barn myfyrwyr, eu cynrychiolwyr, a'n cysylltiadau mewn darparwyr i lywio ein prosesau cynllunio ar gyfer datblygu systemau.<br>◆ Rydym yn datblygu ein dealltwriaeth o'r dirwedd gwynion ar gyfer Addysg Bellach (AB) yng Nghymru fel sail i ddatblygiad prosesau hyblyg a chymesur. |
| Byddwn yn datblygu ein mecanweithiau ar gyfer gwrando ar yr hyn y mae myfyrwyr ac eraill yn ei ddweud wrthym am eu profiad o'n gwasanaeth ac yn defnyddio hyn i wella'n prosesau ymhellach. | ◆ Rydym yn datblygu ein systemau ar gyfer nodi cyfleoedd dysgu o gwynion am ein gwasanaeth a heriau i'n penderfyniadau.<br>◆ Rydym yn adolygu effeithiolrwydd ein prosesau ar gyfer cael adborth gan y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth. |

## Adolygu ein proses ar gyfer gwaith achos yn sylfaenol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr ein gwasanaeth yn ganolog i'r broses honno, ei bod mor effeithlon â phosibl a'i bod yn canolbwyntio ar ddatrysiad effeithiol.

| Beth rydym yn bwriadu ei wneud | Sut olwg fydd ar hyn |
|---|---|
| Byddwn yn defnyddio sicrwydd sy'n seiliedig ar risg ac yn gymesur i sicrhau ansawdd ein prosesau a'n penderfyniadau. | ◆ Rydym yn adolygu ac yn ail-gynllunio ein systemau sicrhau ansawdd i gefnogi gwelliannau pellach yn ein gwasanaethau trwy ganolbwyntio ar ddysgu a datblygu sefydliadol. |
| Byddwn yn adeiladu ar ein gallu i roi adborth ar ddysgu o gwynion i'r sector, i hyrwyddo arfer da a gwelliant. | ◆ Rydym yn datblygu ein strategaeth i ganolbwyntio ar sicrhau effaith i fyfyrwyr a'r sector ehangach.<br>◆ Rydym yn gwella ein systemau ar gyfer dynodi, cofnodi ac adrodd ar yr hyn sydd wrth wraidd cwynion. |

# Cynyddu effeithiolrwydd ein dylanwad i gefnogi ein hamcanion.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein harferion da a'n gwaith allgymorth. Byddwn yn monitro effeithiolrwydd yr hyn a wnawn ac yn asesu ei effaith fel y gallwn ganolbwyntio ein hadnoddau ar yr hyn sy'n gweithio'n dda. Rydym am i'n gwaith arfer da gyrraedd pawb a all elwa ohono, mewn ffyrdd sy'n ddefnyddiol iddynt.

Byddwn yn ymwneud â materion byw sy'n effeithio ar ddarparwyr a myfyrwyr, gan wrando ar eu profiadau, yn ogystal â datblygu a diweddaru ein canllawiau arfer da yn seiliedig ar ddysgu o'r cwynion a welwn. Rydym yn cydnabod yr amrywiaeth o bwysau, gan gynnwys pwysau ariannol, sy'n effeithio ar fyfyrwyr, darparwyr a mudiadau myfyrwyr ar hyn o bryd.

Cawn ein cydnabod am ein rôl unigryw, ac am ein hannibyniaeth a'n harbenigedd. Byddwn yn parhau i weithio gyda llywodraethau a sefydliadau allweddol yn y sector a thu hwnt wrth i ni chwarae ein rhan yn y fframwaith rheoleiddio, gan gydbwyso ein hannibyniaeth a'n cyd-ddibyniaeth â sefydliadau eraill.

Byddwn yn defnyddio ein dylanwad i helpu â chynyddu ffocws ar lais a phrofiad myfyrwyr, ac i ddod â'n harbenigedd i'r drafodaeth am faterion polisi byw a rhai sy'n dod i'r amlwg yn y sector. Byddwn yn gweithio i ehangu mynediad i'n gwasanaeth i gynifer â phosibl o'r rhai a allai elwa ohono.

Byddwn yn parhau i fod yn aelodau gweithgar o Gymdeithas yr Ombwdsmon (OA) a'r Rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer Ombwds mewn Addysg Uwch (ENOHE), gan rannu ein dysgu a'r hyn a ddysgwn o gynlluniau eraill.

Cynyddu effeithiolrwydd ein dylanwad i gefnogi ein hamcanion.

| Beth rydym yn bwriadu ei wneud | Sut olwg fydd ar hyn |
|---|---|
| Byddwn yn sefydlu perthnasoedd newydd, yn adeiladu ar berthnasoedd sy'n dod i'r amlwg, yn cynnal, dyfnhau a chryfhau perthnasoedd sy'n bodoli eisoes - i gynnal a gwella ein gallu i ddylanwadu | ◆ Rydym yn ymwneud â meddwl gwleidyddol a datblygu polisi ar feysydd sy'n berthnasol i'n gwaith ac yn cynnal perthnasoedd gwaith effeithiol â swyddogion.<br>◆ Rydym yn gweithio gyda'r Swyddfa Myfyrwyr (OfS), Medr, rheoleiddwyr eraill a Chyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol (PSRBs) fel bod gwybodaeth yn cael ei rhannu fel y bo'n briodol, ac rydym yn cymryd rhan mewn trafodaethau perthnasol ynghylch eu ffrydiau gwaith.<br>◆ Rydym yn mynychu cyfarfodydd perthnasol ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau sy'n berthnasol i'n gwaith, gan gynnwys gyda'r Adran Addysg (DfE), Llywodraeth Cymru, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, Cyngor Ansawdd y DU, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.<br>◆ Rydym yn parhau i ddatblygu ein rhaglen allgymorth a'r adnoddau sydd ar gael ar ein gwefan ar gyfer darparwyr, cyrff cynrychioli myfyrwyr ac eraill. Rydym yn defnyddio adborth gan gyfranogwyr a'n hymgysylltiad ehangach ynghyd â mewnwelediad o'n gwaith achos fel sail i'r pynciau rydym yn eu cwmpasu a'r ffordd yr ydym yn eu cyflwyno. Rydym yn manteisio ar gyfleoedd eraill i rannu'r hyn a ddysgwyd o gwynion, er enghraifft trwy gyfrannu at ddigwyddiadau sector.<br>◆ Rydym yn gweithio gyda'r llywodraethau ac eraill i sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth a gweithrediad yn ystyried yr effaith ar fyfyrwyr unigol ac yn cau unrhyw fylchau o ran myfyrwyr sy'n defnyddio'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar unrhyw weithrediad o Ddeddf Addysg Uwch (Rhyddid i Lefaru) 2023 ac unrhyw Bapur Gwyn arall neu ddeddfwriaeth a ddygwyd ymlaen.<br>◆ Rydym yn ymgysylltu â darparwyr sy'n destun niferoedd uwch o gwynion i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol er mwyn archwilio ffyrdd mwy effeithiol o ddynodi a rhannu gwersi a ddysgwyd o gwynion.<br>◆ Rydym yn ymwneud â darparwyr sydd ag ymgysylltiad uniongyrchol isel â ni i sicrhau bod ein gwaith arfer da o fudd i'r aelodau hyn a'u myfyrwyr.<br>◆ Rydym yn chwilio am gyfleoedd i nodi arfer da mewn darparwyr a all lywio ein gwaith ar achosion. |

Cynyddu effeithiolrwydd ein dylanwad i gefnogi ein hamcanion.

| Beth rydym yn bwriadu ei wneud | Sut olwg fydd ar hyn |
|---|---|
| Byddwn yn tynnu ar themâu sy'n datblygu mewn gwaith achos, yn ogystal â thueddiadau ac enghreifftiau i amlygu materion a all wella profiadau myfyrwyr. Byddwn yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth lle rydym yn nodi'r angen mwyaf am newid neu'r posibilrwydd mwyaf o greu effaith. | ◆ Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am ein dulliau o weithredu a'r hyn a ddysgwn o'r cwynion a welwn, er enghraifft mewn nodiadau gwaith achos a chrynodebau o achosion. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gwaith achos gyda sefydliadau eraill sy'n gweithio ar feysydd blaenoriaeth.<br>◆ Rydym yn ymgynghori â myfyrwyr, cyrff cynrychioli myfyrwyr, darparwyr, a rhanddeiliaid perthnasol eraill ynghylch adran newydd o'r Fframwaith Arfer Da: Ymdrin â chwynion am aflonyddu a chamymddwyn rhywiol. |
| Byddwn yn parhau i ymateb i fylchau mewn amddiffyniad i fyfyrwyr, gan fynd ar drywydd cyfleoedd i ehangu aelodaeth lle bo hyn er budd myfyrwyr. | ◆ Rydym yn parhau i weithio gyda llywodraeth Cymru a Medr i gefnogi'r symudiad i system drydyddol integredig trwy baratoi SDA a darparwyr ar gyfer symudiad tuag at ein galluogi i adolygu cwynion gan fyfyrwyr AB yn annibynnol. Rydym yn gweithio gyda Medr wrth iddo sefydlu ei ofynion o ran ymdrin â chwynion, ac yn dilyn cyfathrebiad gan Lywodraeth Cymru, rydym yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod prosesau angenrheidiol ar waith ac i wella ein dealltwriaeth o'r sector trydyddol yng Nghymru.<br>◆ Wrth i gynlluniau ar gyfer Hawl Dysgu Gydol Oes a mentrau eraill ddatblygu, rydym yn parhau i geisio sicrhau bod pob myfyriwr yn cael mynediad at ddatrysiad annibynnol i'w cwynion. Bydd hyn hefyd yn gofyn am weithio'n agos gyda'r Swyddfa Myfyrwyr. Rydym yn parhau i dynnu sylw at anghysondebau o ran diogelu myfyrwyr sy'n astudio mewn aelodau lle nad yw'r sefydliad dyfarnu yn aelod, yn ogystal â myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer cyrsiau eraill, gan gynnwys cyrsiau islaw lefel 4, nad oes ganddynt fynediad at ddatrysiad annibynnol. |

Cynyddu effeithiolrwydd ein dylanwad i gefnogi ein hamcanion.

| Beth rydym yn bwriadu ei wneud | Sut olwg fydd ar hyn |
|---|---|
| Byddwn yn sicrhau y gallwn gynnig safbwyntiau annibynnol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar faterion sydd o ddiddordeb i'r sector, yn ôl yr angen ac yn unol â blaenoriaethau newidiol wrth i faterion sy'n dod i'r amlwg effeithio ar fyfyrwyr. | ◆ Rydym yn dod â'n persbectif unigryw, gan dynnu ar yr hyn a ddysgwn o adolygu cwynion, i ystod eang o feysydd polisi gan gynnwys y rhai sy'n cael eu datblygu a fydd yn effeithio ar ein Cynllun.<br>◆ Rydym yn parhau â'n gwaith sy'n canolbwyntio ar effaith darparydd yn cau, boed hynny'n ddirwyn cwrs i ben, cau campws, neu ymadael â'r farchnad, ar fyfyrwyr unigol. Bydd hyn yn helpu wrth ystyried deilliannau gwell i fyfyrwyr unigol lle bo'n bosibl, a bydd yn lliniaru'r risg y bydd SDA yn derbyn cwynion lle nad oes llawer o opsiwn o ran datrysiad. Bydd hyn yn cynnwys:<br>▶ Gweithio gyda SUMS Consulting i ddynodi a rhannu arferion effeithiol a fydd o gymorth i ddarparwyr yng Nghymru a Lloegr wrth ymdopi ag amgylchiadau ariannol heriol gyda ffocws penodol ar liniaru'r effaith ar fyfyrwyr.<br>▶ Cynnig ein harbenigedd a gweithio gyda'r llywodraethau ac eraill i ystyried atebion posibl i fyfyrwyr nad oes ganddynt unrhyw ddatrysiad o bosibl ar ôl i'w sefydliad adael y farchnad. Mae hyn yn cynnwys datblygu ein syniad o gronfa ar gyfer myfyrwyr yr effeithir arnynt, rhyw fath o gynllun yswiriant neu newid yn y ddeddfwriaeth ar gyfer darparwyr sy'n mynd yn fethdalwyr, sy'n blaenoriaethu myfyrwyr.<br>▶ Gweithio gyda darparwyr unigol a allai fod yn ystyried cau cyrsiau neu gampysau i sicrhau eu bod wedi ystyried yr hyn a ddysgwyd ac arfer da, a'u bod yn mynychu cyfarfodydd amlasiantaethol pan fo gofyn iddynt wneud hynny. |

# Gwella ansawdd ein tystiolaeth, yn ddata a mewnwelediad, i wella ein perfformiad sefydliadol ac effeithiolrwydd o ran dylanwadu.

Mae cyflawni gwaith achos effeithlon o ansawdd uchel a dylanwadu ar eraill i gefnogi ein hamcanion yn dibynnu ar fynediad at ddata a gwybodaeth gywir ac amserol. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn casglu gwybodaeth sy'n ddefnyddiol, a hynny mewn ffordd gyson a chydlynol. Rydym yn ymwybodol o faich casglu data ar ein sefydliad ac o fewn y sector, a byddwn yn anelu at gasglu data unwaith a'i ddefnyddio'n aml. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gallu o ran adrodd a dadansoddi, gan gynnwys gwella integreiddio systemau ac ymchwilio i dechnoleg sy'n dod i'r amlwg.

Mae mynediad at wybodaeth gywir ac amserol am y sector rydym yn gweithredu ynddo yn angenrheidiol i weithrediad llwyddiannus y Cynllun. Mae gwybodaeth am faint a chwmpas darpariaeth uwch a thrydyddol yn llywio amrywiaeth o'n gweithgareddau, o weinyddu aelodaeth yn ymarferol i ymwneud â pholisi. Mae gwybodaeth am y corff myfyrwyr yn ein helpu i osod ein gwaith yn ei gyd-destun, yn ogystal â deall a rhoi gwell ystyriaeth i faterion sy'n dod i'r amlwg.

## Gwella ansawdd ein tystiolaeth, yn ddata a mewnwelediad, i wella ein perfformiad sefydliadol ac effeithiolrwydd o ran dylanwadu.

| Beth rydym yn bwriadu ei wneud | Sut olwg fydd ar hyn |
|---|---|
| Byddwn yn cynnal archwiliad o'r data a gynhyrchir gennym ynghylch cwynion myfyrwyr i nodi bylchau, dyblygu, a photensial ar gyfer mwy o ymarferoldeb. | ◆ Mae dwy flynedd wedi mynd heibio ers gweithredu Microsoft Dynamics fel ein system ar gyfer ymdrin ag achosion, felly mae'n gyfle amserol i adolygu sut y bydd yn parhau i'n cynorthwyo wrth gyflawni ein hamcanion.<br>▶ Rydym yn archwilio gweithrediad ein system a'n prosesau trwy lens allbynnau gan ystyried cysondeb, cywirdeb a dibynadwyedd y data a gasglwyd. Rydym yn nodi bylchau ac unrhyw agweddau ar ein data sy'n ddiangen. Rydym yn nodi meysydd i'w gwella ac yn datblygu camau gweithredu i fynd i'r afael â'r rhain.<br>▶ Rydym hefyd yn archwilio ein systemau a'n prosesau trwy lens profiad y defnyddiwr. Rydym yn nodi cyfleoedd i symleiddio ein prosesau cipio data i gynorthwyo ymdrin ag achosion yn effeithlon ac yn effeithiol. |
| Byddwn yn parhau i gynyddu ein capasiti a'n galluoedd o ran dadansoddi data. | ◆ Rydym yn adeiladu ar waith i wreiddio data o ansawdd uchel fel cyfrifoldeb a rennir ac ased a rennir ar draws y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys:<br>▶ Integreiddio cofnodi data cywir mewn safonau ansawdd ar gyfer gwaith achos.<br>▶ Datblygu hyfforddiant ac adnoddau i gynorthwyo'r holl staff wrth fewnbynnu data ac wrth ddefnyddio offer adrodd.<br>▶ Cynnal y wybodaeth ddiweddaraf am offer ac arfer gorau o fewn rolau sy'n canolbwyntio ar ddata, gan gynnwys ymgysylltu â thechnoleg deallusrwydd artiffisial sy'n dod i'r amlwg. |
| Byddwn yn cynnal archwiliad o'r data a'r wybodaeth o ffynonellau allanol a ddefnyddiwn i lywio ein gwaith. | ◆ Rydym yn gwerthuso'r ffynonellau gwybodaeth allanol a ddefnyddiwn ac yn ystyried a ydynt yn parhau i ddiwallu ein hanghenion o ran data. Rydym yn archwilio a yw unrhyw newidiadau diweddar yng nghylchoedd gwaith a methodolegau'r sefydliadau sy'n casglu'r data yn cael effaith barhaus ar ein defnydd o'r data hwn.<br>◆ Rydym yn nodi unrhyw feysydd lle nad yw ein hanghenion gwybodaeth yn cael eu diwallu gan y data sydd ar gael i ni ar hyn o bryd ac yn archwilio dewisiadau amgen lle bo'n briodol. Rydym yn ystyried a oes ffyrdd newydd o ddefnyddio data allanol sy'n bodoli eisoes i roi'r wybodaeth a gynhyrchir gennym mewn cyd-destun ac i helpu gyda'n cynllunio sefydliadol. |

Gwella ansawdd ein tystiolaeth, yn ddata a mewnwelediad, i wella ein perfformiad sefydliadol ac effeithiolrwydd o ran dylanwadu.

| Beth rydym yn bwriadu ei wneud | Sut olwg fydd ar hyn |
|---|---|
| Byddwn yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â gofynion rheoleiddio gwybodaeth. | ◆ Rydym yn cyflawni gwaith i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd yn y dadansoddiad o fylchau cydymffurfiaeth o ran Diogelu Data.<br>◆ Rydym yn ymwneud ag unrhyw newidiadau mewn arferion sy'n deillio o ddeddfwriaeth Diogelu Data newydd.<br>◆ Rydym yn parhau i adolygu gweithrediad Deddf Cystadleuaeth a Defnyddwyr Marchnadoedd Digidol 2024 a'i heffaith ar ein rôl fel corff Datrys Anghydfod Amgen cymeradwy. |

# Cynyddu effeithiolrwydd y sefydliad, adeiladu ar ein hymagwedd un-sefydliad a'i chryfhau, gan sicrhau y gallwn ymateb i ofynion y blaenoriaethau eraill, a chreu amgylchedd lle gall ein holl bobl ffynnu.

Mae ein strategaeth newydd yn rhagweld cyfnod o ddatblygiad systematig o'n harweinyddiaeth, ein diwylliant, ein pobl a'n systemau. Mae angen i ni sicrhau bod gennym y gallu a'r capasiti angenrheidiol i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau strategol.

Mae angen i ni ddatblygu'r mecanweithiau priodol i gydbwyso adnoddau a blaenoriaethu gweithgareddau i gyflawni'r newid sefydliadol hwn yng nghyd-destun lefelau uchel o alw am waith ar achosion. Bydd hyn yn golygu dynodi a mynd i'r afael ag arferion sy'n achosi aneffeithlonrwydd yn ein heffeithiolrwydd mewnol.

Byddwn yn gweithio i wella diwylliant sefydliadol ac amgylchedd gwaith sy'n canolbwyntio ar ddysgu a datblygu.

## Cynyddu effeithiolrwydd y sefydliad, adeiladu ar ein hymagwedd un-sefydliad a'i chryfhau, gan sicrhau y gallwn ymateb i ofynion y blaenoriaethau eraill, a chreu amgylchedd lle gall ein holl bobl ffynnu.

| Beth rydym yn bwriadu ei wneud | Sut olwg fydd ar hyn |
|---|---|
| Byddwn yn cymryd y cam nesaf i ddatblygu ein harweinyddiaeth a'n rheolaeth er mwyn gosod ein hunain mewn sefyllfa dda i gyflawni ein blaenoriaethau strategol. | ◆ Byddwn yn adolygu ein hymagwedd at arweinyddiaeth a rheolaeth. |
| Ym mlwyddyn gyntaf ein cynllun strategol newydd, byddwn yn sefydlu nifer o fesurau a dangosyddion meincnodi i gynorthwyo â datblygiad parhaus y sefydliad a'n ffocws ar ymagwedd sefydliad-cyfan i sicrhau ein bod yn creu'r effaith fwyaf bosibl. | ◆ Byddwn yn adolygu'r ffordd rydym yn adrodd ar ein perfformiad a'n heffeithlonrwydd ac yn adnewyddu ein dangosyddion perfformiad allweddol.<br>◆ Byddwn yn datblygu ac yn gwella ein hymagwedd at reoli risg ymhellach.<br>◆ Byddwn yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid i helpu â'n dealltwriaeth o'r profiad a gaiff eraill o'n gwaith. |
| Byddwn yn gweithio gyda'n pobl i hyrwyddo eu hymgysylltiad parhaus â'r sefydliad a sicrhau sianeli priodol ar gyfer llais gweithwyr. | ◆ Byddwn yn adeiladu ar y mewnwelediad o'n harolwg ymgysylltu â chyflogeion diweddar a'n cytundeb cydnabyddiaeth newydd ag Undeb y GMB:<br>▶ Rydym yn cryfhau llais gweithwyr i sicrhau cyfathrebu ac ymgysylltu dwy-ffordd ystyrlon.<br>▶ Rydym yn gweithio ar ddatblygu ein systemau a'n fframwaith ar gyfer dysgu a datblygu. |
| Byddwn yn rhoi ein strwythur llywodraethiant newydd ar waith yn llawn, gan gyflwyno trefniadau a fydd yn adlewyrchu ein haelodaeth ehangach ac yn cynnal hyder rhanddeiliaid yn ein llywodraethiant, yn ogystal â chryfhau ei effeithiolrwydd. | ◆ Byddwn yn recriwtio Ymddiriedolwyr/Cyfarwyddwyr i'r swyddi gwag ar ein Bwrdd, gan reoli hyn yn ofalus i sicrhau effeithiolrwydd parhaus o ran llywodraethiant a sicrhau cyfranogiad aelodau ein Cwmni a rhanddeiliaid eraill. |

Cynyddu effeithiolrwydd y sefydliad, adeiladu ar ein hymagwedd un-sefydliad a'i chryfhau, gan sicrhau y gallwn ymateb i ofynion y blaenoriaethau eraill, a chreu amgylchedd lle gall ein holl bobl ffynnu.

| Beth rydym yn bwriadu ei wneud | Sut olwg fydd ar hyn |
|---|---|
| Byddwn yn symud swyddfa yn llwyddiannus. | ◆ Byddwn yn cwblhau trefniadau gyda'n landlordiaid newydd ac yn paratoi ar gyfer symud ym mis Mai 2025. Bydd y gofod newydd o gymorth i'n dulliau gweithio modern, yn darparu amgylchedd o ansawdd uchel i'n pobl ac yn ddefnydd effeithlon o'n hadnoddau. |
| Byddwn yn parhau i adolygu ein tanysgrifiadau er mwyn hyrwyddo cydbwysedd teg rhwng twf ac effeithlonrwydd wrth ymateb i'r nifer cynyddol o gwynion. | ◆ Byddwn yn cynnal ein cost fesul uned ar tua £1,700.<br>◆ Byddwn yn adolygu'r cydbwysedd rhwng elfen graidd ac elfen achos tanysgrifiadau yng ngoleuni'r newidiadau i drothwyon bandiau. |
| Byddwn yn cryfhau ein hymagwedd at amrywioldeb a chynhwysiant. | ◆ Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu cynlluniau i wella ein hymagwedd. |